# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC (3)-16-08)

Dyddiad: 17 Mehefin 2008
Amser : 8.45am
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd

### Cynnwys

Cyfarfu'r pwyllgor ar 17 Mehefin 2008. Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC ac Alun Davies AC. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Irene James AC. Roedd Sandy Mewies AC yn dirprwyo ar ei rhan.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Eitem 2: Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2.

### Eitem 2.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol).

SLC169 - Gorchymyn y Cwricwlwm Ysgol yng Nghymru (Diwygiadau Amrywiol) 2008 Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'i gwnaed ar ... 2008. Yn dod i rym ar 1 Awst 2008.

### Item 2.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

SLC167 - Gorchymyn Addysg (y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30 Mai 2008. Fe'i gosodwyd ar 2 Mehefin 2008. Yn dod i rym 1 Awst 2008. SLC168 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Sylfaenol) a (Rhestri Cyflawnwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 4 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008. SLC 171 - Gorchymyn Cŵn Gleision (Gwahardd eu Pysgota) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 4 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 6 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008. SLC172 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Mehefin 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mehefin 2008. Yn dod i rym ar 1 Gorffennaf 2008.

### Eitem 3: Offerynnau ac offerynnau drafft y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

### Eitem 3.1: Offerynnau drafft sy'n agored i gael eu cymeradwyo yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn gadarnhaol)

SLC170 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008 Y weithdrefn gadarnhaol. Fe'u gwnaed ar ... 2008. Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1. Item 3.2: Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) SLC166 - Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008 Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 30 Mai 2008. Fe'i gosodwyd ar 2 Mehefin 2008. Yn dod i rym 1 Awst 2008 ac eithrio'r hyn a ddarperir gan erthyglau 4(1), 5(1), 6(1), 7(1), 8(1), 9(1), 10(1), 11(1), 12(1), 13(1), 14(1) a 15(1) a (2). Ystyriodd yr Aelodau ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad drafft ar y Gorchymyn uchod ond roeddent o'r farn bod y pwyntiau a nodwyd i'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 yn ddilys. Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol yn Atodiad 1 a 2 i'r Adroddiad hwn.

### Unrhyw fater arall

Nododd y pwyllgor gyhoeddiad yr adroddiad ar yr ymweliad â Senedd yr Alban.

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
17 Mehefin 2008

## Atodiad 1

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-16-08)

**SLC166**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

**Teitl: Gorchymyn Addysg (Cwricwlwm Cenedlaethol) (Targedau Cyrhaeddiad a Rhaglenni Astudio) (Cymru) 2008**

Diwygir Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru o 1 Awst 2008 ymlaen. Mae'r Gorchymyn hwn yn rhoi effaith gyfreithiol i'r rhaglenni astudio, sy'n gosod yr hyn y dylid ei addysgu i ddisgyblion a thargedau cyrhaeddiad ar eu cyfer.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 15.2. 1. Nid yw'r darpariaethau cychwyn sydd wedi'u cynnwys yn nhestun Cymraeg erthygl 1(1) yn cychwyn erthygl 15(2), sydd wedi'u cynnwys yn y testun Saesneg. Felly nid yw'n eglur a yw'r ddarpariaeth hon wedi'i chychwyn ai peidio. Dylid cywiro'r diffyg hwn cyn gynted â phosibl. [Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii] 2. Mae testun Cymraeg yr erthyglau, 4(2), 5(2), 6(2), 7(2), 8(2), 9(2), 10(2), 11(2), 12(2), 13(2), 14(2) a 15(3), sydd oll yn ailadrodd yr un camgymeriad, yn ddiffygiol. Diben y testun yw rhoi effaith i ddarpariaethau sy'n nodi'r targedau cyrhaeddiad a'r rhaglenni astudio mewn perthynas â gwahanol bynciau ysgol. Fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw geiriad y testun Cymraeg yn cyflawni'i amcan, ac nid yw'n cyfateb yn union i'r testun Saesneg, oherwydd hepgor geiriad hanfodol bwysig ar ddechrau pob erthygl. Gellir goresgyn y broblem hon drwy roi "Mae'r" yn lle "Y" ar ddechrau pob erthygl. Argymhellir bod y diffyg hwn yn cael ei gywiro ar y cyfle cyntaf posibl. [Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii] 3. Nid yw'r testun Cymraeg mewn cromfachau yn erthyglau 4(3), 5(3), 6(3), 7(3), 8(3), 9(3), 10(3), 11(3), 12(3), 13(3), 14(3) a 15(4) yn gyson â thestun y fersiwn Saesneg. Ceisia'r testun esbonio diben esiamplau a argraffwyd mewn print italig o fewn dogfennau'n ymwneud â gwahanol bynciau ysgol. Yn Saesneg mae'r testun yn nodi bod yr esiamplau "(... serve to illustrate the programmes of study described therein)", tra bod y testun Cymraeg yn nodi "(... sy'n egluro'r rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi)". Mae perygl y bydd darllenwyr yn dehongli'r testun Cymraeg i olygu bod yr esiamplau a grybwyllwyd yn "egluro" (explain) yn hytrach nag yn "dangos" (illustrate) y rhaglenni astudio a ddisgrifir ynddi. Gellir datrys y dryswch hwn drwy ddefnyddio'r gair "dangos" neu "enghreifftio" yn lle "egluro". Argymhellir bod y geiriad yn cael ei ddiwygio ar y cyfle cyntaf posibl. [ Rheol Sefydlog 15.2 vi a vii]

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
17 Mehefin 2008

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-**

**Pwynt Adrodd 1:**

Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai erthygl 1(1) fod wedi cyfeirio hefyd at erthygl 15(2). Serch hynny, mae erthygl 15(2) yn cael ei chychwyn â'r geiriau yn yr erthygl honno ei hun, sef: "Daw darpariaethau'r Gorchymyn hwn i'r graddau y maent yn ymwneud â'r rhan honno o'r ddogfen Gymraeg sy'n dwyn y teitl "Cymraeg ail iaith" i rym ar..."; mae erthygl 15(2) yn mynd yn ei blaen wedyn i nodi'r darpariaethau cychwyn ar gyfer yr erthygl hon. Yng ngoleuni hynny nid yw'r Llywodraeth yn credu bod y gwall yn erthygl 1(1) yn debyg o arwain at gamddealltwriaeth ond gwneir diwygiadau i erthygl 1(1) o'r Gorchymyn i gywiro'r hyn a hepgorwyd o erthygl 1(1) pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio y tro nesaf.

**Pwynt Adrodd 2:**

Mae'r Llywodraeth yn cytuno. Nid yw'r Llywodraeth yn credu bod y gwall yn debyg o arwain at gamddealltwriaeth ond gwneir diwygiadau i'r Gorchymyn i gywiro'r gwall pan gaiff y Gorchymyn ei ddiwygio y tro nesaf.

**Pwynt Adrodd 3:**

Nid yw'r Llywodraeth yn cytuno. Un o'r ystyron a restrir yn y New Shorter Oxford Dictionary ar gyfer 'illustrate' yw "Make clear, elucidate, explain" a gellir gwneud hynny gydag enghreifftiau neu hebddynt, neu gallai gynnwys adroddiad disgrifiadol neu ddefnyddio darluniau a ffotograffau. Mae'r gair 'egluro' yn gweddu'n berffaith iawn i'r cysyniad hwn.

# Atodiad 2

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

# (SLC(3)-16-08)

**SLC170**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2008

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynnal refferenda sydd i'w cynnal o dan adran 27 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 neu yn rhinwedd rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf. Mae'r refferenda yn ymwneud â ffurf y trefniadau gweithrediaeth y dylai cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol eu mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau hefyd yn rhagnodi ffurfiau penodol sydd i'w defnyddio mewn refferendwm gan gynnwys ffurf y geiriad yn y datganiad a'r cwestiwn sydd i'w ofyn mewn refferendwm.

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2 ar y seiliau a nodir yn Rheol Sefydlog 15.2(vi) (drafftio diffygiol) a Rheol Sefydlog 15.2(vii) (anghysondebau rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg): Yn nhestun Saesneg rheoliad 3, gwneir cyfeiriad cywir at "Schedule 1 to these Regulations". Fodd bynnag, mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "yr Atodlen" [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)] Yn Rhan 5 o Atodlen 3 i'r Rheoliadau, ym mharagraff 24 o'r testun Cymraeg, yng nghofnod 1 o'r Tabl, yng nghwestiwn (b), mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "etholiad"; mae'r testun Saesneg yn cyfeirio'n gywir at "referendum". [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
17 Mehefin 2008

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-

Mae'r Llywodraeth wedi nodi ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd uchod. Gan nad yw'n debygol y bydd y gwallau yr adroddwyd arnynt yn peri camddealltwriaeth, gwneir diwygiadau i'r Rheoliadau i gywiro'r drafftio diffygiol pan fydd y Rheoliadau'n cael eu diwygio nesaf.